



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL

Cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 1 Rhagfyr 2020 am 1.00 pm.

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Bwrdd Rhianta Corfforaethol Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd C Leyshon (Cadeirydd)

Y Cyngorydd G Hopkins Y Cyngorydd J Rosser
Y Cyngorydd S. Rees-Owen Y Cyngorydd R Yeo
Y Cyngorydd E Griffiths

Swyddogion oedd yn bresennol

Ms A Lloyd, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant
Ms C Miles, Cyfreithiwr Gofal Plant
Ms A Browning, Pennaeth y Gwasanaeth
Ms C Jones, Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant
Ms J Thomas, Rheolwr Gwella'r Gwasanaeth, Ymgysylltu a Chwynion
Mrs J Clark, Pennaeth Diogelu
Mr J Goulding, Rheolwraig Materion Datblygiad a Chyflawniad Carfan
Ms S Longhurst, Rheolwraig Materion Datblygiad a Chyflawniad Carfan
Ms C Urch (TGP)

11 Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod rhithwir a derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. James.

12 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

13 Cofnodion

PENDERFYNODD yr Aelodau gadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar 21 Medi 2020 yn rhai cywir.

14 Tros Gynnal Plant (TGP) Cymru

Rhoddodd Ms C. Urch, Tros Gynnal Plant Cymru ddiweddariad chwarterol i'r Bwrdd o ran y cynnydd a wnaed gan Tros Gynnal Plant (TGP) Cymru.

Clywodd yr aelodau fod 22 o bobl ifanc wedi manteisio ar Eiriolaeth yn Seiliedig ar Faterion yn ystod y chwarter, gan gyflwyno 23 o faterion; a chyfeiriwyd 12 o bobl ifanc eraill ar gyfer y Cynnig Gweithredol. Cynhaliwyd deg cyfarfod Cynnig Gweithredol, gyda 6 pherson ifanc yn derbyn y cynnig o ran cefnogaeth ac yn symud ymlaen i Eiriolaeth yn Seiliedig ar Faterion.

Nododd yr aelodau fod nifer y bobl ifanc a atgyfeiriwyd ar gyfer y Cynnig Gweithredol yn ystod y cyfnod wedi gostwng ers Chwarter 1 ond roedd sicrwydd bod Tros Gynnal Plant Cymru yn gweithio ar hyn.

O blith y 22 o bobl ifanc a gafodd eu hatgyfeirio at Eiriolaeth yn Seiliedig ar Faterion, yn ystod y cyfnod, nododd yr aelodau na chafodd dau o'r rhain eu gweld o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl derbyn yr atgyfeiriad, gan fod y ddau berson ifanc, a oedd yn byw yn yr un tŷ, yn sâl.

Esboniwyd bod 22 o bobl ifanc wedi roi adborth gyda'u heiriolwr, a oedd yn gadarnhaol, gyda phob un o'r 22 yn nodi y bydden nhw'n defnyddio'r gwasanaeth eto.

Roedd yr aelodau'n falch o nodi, er gwaethaf ei anawsterau, bod yr eiriolwyr a'r bobl ifanc wedi addasu'n effeithiol i gyfarfodydd rhithwir, ac roedd yr eiriolwyr yn gallu derbyn pob cais a chwrdd ar gyfer teithiau cerdded ac ati gyda'r holl bobl ifanc hynny yr oedd angen cyfarfodydd wyneb yn wyneb arnyn nhw. Cwestiynodd un Aelod ai bwriad TGP oedd parhau i gynnal cyfarfodydd eiriolaeth yn rhithwir yn y dyfodol. Dywedodd TGP, er bod cyfarfodydd rhithwir yn golygu bod modd cynnal rhagor o gyfarfodydd eiriolaeth bob dydd, roedd gan eiriolwyr bryderon o hyd am nad oedd y bobl ifanc bob amser ar eu pennau eu hunain yn ystod eu sgysiau. Eglurwyd y byddai'r dewis yn cael ei roi i bob person ifanc, yn unol â'r dull arferol, lle maen nhw'n nodi eu dewis ar y ffurflen atgyfeirio ac yn eu cyfarfod cyntaf.

Diolchodd y Cadeirydd i TGP am yr adroddiad llawn gwybodaeth a **PHENDERFYNWYD** cydnabod y diweddariad a ddarparwyd.

15 Adroddiad Blynyddol Meisgyn ar gyfer 2019-20 ac Adroddiad Blynyddol y Garfan Teuluoedd Therapiwtig ar gyfer 2019-20

Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint, rhoddodd y Rheolwyr Materion Datblygiad a Chyflawniad Carfan ym Meisgyn a Glyncornel ddiweddariadau manwl i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar waith Carfan Meisgyn a'r Garfan Teuluoedd Therapiwtig, fel sydd wedi'i nodi yn adroddiadau blynyddol y gwasanaethau ar gyfer 2019-2020.

O ran diweddariad Carfan Meisgyn, roedd yr Aelodau'n falch o nodi, er gwaethaf y pwysau cynyddol a roddwyd ar staff o ganlyniad i atgyfeiriadau mwy cymhleth, bod 95% o blant wedi aros gartref, yn byw gyda naill ai eu rhieni neu aelodau estynedig o'r teulu ar ddiwedd cyfnod Ymyrraeth Meisgyn. Nod hyn oedd atal plant rhag cael eu derbyn i ofal; ac arhosodd 71% o blant 11-17 oed yn yr un lleoliad gofal maeth neu gartref preswyl i blant ar ddiwedd Ymyrraeth Meisgyn, lle mai'r nod oedd atal y lleoliad rhag chwalu.

O ran diweddariad y Garfan Teuluoedd Therapiwtig, dysgodd yr Aelodau fod y garfan amlddisgyblaethol newydd wedi'i chreu er mwyn cynnig ymgynghoriad, asesiadau therapiwtig ac ymyriadau i blant a theuluoedd yn Rhondda Cynon Taf.

Rhestrodd y swyddog yr ystod eang o wasanaethau a gynigiwyd i unigolion, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol, a oedd yn cynnwys therapi unigol, therapi grŵp a therapi trawma.

Nododd yr aelodau fod 171 o atgyfeiriadau i'r gwasanaeth wedi bod yn ystod y flwyddyn, a oedd yn heriol i garfan fach o 5; ac roedden nhw'n falch o nodi, er gwaethaf pwysau Covid-19, fod y garfan wedi addasu ac yn dal i lwyddo i gwrdd â theuluoedd yn rhithwir.

Diolchodd yr aelodau i swyddogion a'u carfanau, a barhaodd i weithio gydag angerdd a brwdfrydedd er gwaethaf yr heriau eleni.

PENDERFYNODD y Bwrdd Rhianta Corfforaethol gydnabod y diweddariad.

16 Trafod cadarnhau'r Penderfyniad isod:-

PENDERFYNWYD bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

17 Lleoliadau'r Sector Annibynnol

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau i Blant, ddiweddariad a throsolwg i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar wasanaethau plant RhCT o ran comisiynu a monitro lleoliadau allanol ar gyfer Plant sy'n Derbyng Gofal.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad a'r camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod lleoliadau a gomisiynir yn allanol o ansawdd uchel ac yn gallu diwallu anghenion plant a phobl ifainc RhCT sy'n derbyn gofal.

18 Adroddiadau Rheoliad 73

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Preswyl ddiweddariad i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar weithrediad cartrefi plant preswyl RhCT ac effaith y Pandemig Covid-19 cyfredol ar ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifainc.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad;
2. Bod y Cadeirydd yn anfon llythyr ar ran y Bwrdd Rhianta Corfforaethol, i ddiolch i staff am fynd y tu hwnt i'r galw yn ystod blwyddyn sydd wedi bod yn anodd iawn.

19 Gwasanaethau Cymdeithasol – Cwynion a Chanmoliaethau Chwarterol

Rhoddodd y Rheolwr Cwynion, Ymgysylltu a Gwella Gwasanaeth grynodedd i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol o'r trefnau gweithredu ac effeithiolrwydd gweithdrefn cwynion statudol Gwasanaethau Cymdeithasol rhwng 1 Gorffennaf 2020 a 30 Medi 2020.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am nifer y cwynion a ddaeth i law, natur y cwynion, ac unrhyw wersi a ddysgwyd, yn ogystal â manylu ar

ymholiadau gan Gynghorwyr, Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol a nifer y cwynion a ddaeth i law.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gydnabod y diweddariad.

20 Adolygiad Ymarfer Plant

Derbyniodd y Bwrdd Rhianta Corfforaethol gyflwyniad gan y Pennaeth Diogelu, a oedd yn trafod cynnwys ac argymhellion Adolygiad Ymarfer Plant cryno, a gynhaliwyd gan Fwrdd Diogelu Plant Cwm Taf Morgannwg (CTMSB).

Yn dilyn trafod, **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.35 pm

**Y Cynghorydd C Leyshon
Cadeirydd.**